# CABINET – 21AIN MEHEFIN 2017

**PWNC:** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y SAFONAU'R IAITH GYMRAEG 2016-2017**

**ADRODDIAD GAN:** **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Hysbysu aelodau a gofyn am eu cymeradwyaeth o'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2016-2017 yn erbyn pedwar maes penodol o waith yr Iaith Gymraeg, yn ôl y gofyniad o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.

1.2 Wedyn, bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y terfyn amser, sef 30 Mehefin 2017, fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Iaith Gymraeg rhif 158.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i lunio adroddiad monitro blynyddol ar weithredu materion y Gymraeg o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

2.2 Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer 2016-2017 yn cwmpasu pedwar maes allweddol.

## 3. CYSYLLTIADAU Â STRATEGAETHAU

3.1 Mae materion yr iaith Gymraeg yn thema drawsbynciol o Nodau Llesiant o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn effeithio ar bob polisi, swyddogaeth a gweithdrefnau'r Cyngor, yn cynnwys y rhai sydd wedi'u hanelu at y polisïau cyhoeddus a mewnol sy'n ymdrin ag aelodau staff y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Nodau llesiant canlynol:

- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

3.2 Mae gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020, sy'n cynnwys y Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg fel amcan cydraddoldeb strategol yn ei rinwedd ei hun, gysylltiadau uniongyrchol â nifer o bolisïau a strategaethau presennol eraill, o fewn y Cyngor yn ogystal ag o ran gweithio mewn partneriaeth:

3.3 Yn ogystal, mae strategaethau neu reoliadau gan Lywodraeth Cymru y mae gwaith y Gymraeg y Cyngor yn gysylltiedig â nhw, gan gynnwys "**Mwy Na Geiriau / More Than Words**" (sef y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol) a "**Iaith fyw: iaith byw**" (sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg 2012 i 2017).

## 4. YR ADRODDIAD

4.1 Rhaid i'r adroddiad monitro a gwelliant blynyddol ar gyfer y Gymraeg gael ei gyhoeddi erbyn 30ain Mehefin bob blwyddyn.

4.2 Disgwylir i'r adroddiad ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017, yn unol â'r fframwaith rheoleiddio, gyhoeddi gwybodaeth ynghylch pedwar prif faes gwaith yn unig.

4.3 Felly, mae'r adroddiad yn cyflwyno data ynghylch y dangosyddion gofynnol yn unol â'r Safonau a ddangosir isod:

| **Manylion Gofynion i Adrodd** | **Rhif y Safon Berthnasol *(ac is-gymal)*** |
|---|---|
| **Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd**<br><br>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. | 147, 148, 149, 156, 158 *(2)*, 162, 164 *(2)*, 168 *(a)*, 170 *(2) (d)* |
| **Sgiliau Iaith Staff**<br><br>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151); | 170 *(2) (a)*<br>151 |
| **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg**<br><br>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);<br><br>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152). | 170 *(2) (b)*<br>170 *(2) (c)*<br>152 |
| **Recriwtio i Swyddi Gwag**<br><br>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:<br><br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol<br><br>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154); | 170 *(2) (ch)*<br>154 |

4.4 Yn fras, mae'r adroddiad blynyddol yn uwcholeuo'r wybodaeth perfformiad canlynol;

- Mae'r nifer o gwynion wedi disgyn. Fodd bynnag gwnaethom dderbyn 5 Ymchwiliad ffurfiol Comisiynydd y Gymraeg.
- Cafodd 304 o swyddi gwag eu categoreiddio fel Cymraeg dymunol, gyda ond 4 yn cael eu hadnabod fel swyddi Cymraeg hanfodol.
- Mae'r ffigyrau hyfforddiant yn parhau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol gyda 59 o ddysgwyr.

## 5. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant fel y nodir yn y Cysylltiadau â Strategaethau uchod yn arbennig y cyfrifoldeb a roddir ar gyrff cyhoeddus i gyfrannu at Gymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'n gyson â'r pum ffordd o weithio fel y nodir yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ddeddf.

## 6. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

6.1 Cynhaliwyd asesiadau ac ymgynghoriad llawn ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol wrth iddo gael ei ddatblygu, felly ni wnaed asesiad llawn ar yr adroddiad blynyddol hwn. Mae'r adroddiad ei hun yn asesiad o gyflawniadau'r Cyngor.

## 7. GOBLYGIADAU ARIANNOL

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn gan fod yr adroddiadau blynyddol yn ymwneud â gwaith a wnaed eisoes yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, dylid nodi wrth symud yr agenda yn ei blaen y bydd goblygiadau ariannol, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddiant iaith Gymraeg ar gyfer staff.

## 8. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran personél i'r adroddiadau hyn, er bod hyn yn parhau i gael ei adolygu wrth i'r gwaith o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg fynd yn ei flaen. Mae hyn yn berthnasol i adran 4 o'r adroddiad blynyddol, sy'n canolbwyntio ar Recriwtio i Swyddi Gwag.

## 9. YMGYNGHORI

9.1 Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar ddata a gasglwyd ar draws y meysydd gwasanaeth ynghylch gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg yn ystod 2016-2017. Bu nifer o'r swyddogion a ddangosir ar ddiwedd yr adroddiad hwn fel ymgyngoreion yn cyfrannu gwybodaeth adrodd benodol ar gyfer yr adroddiad blynyddol.

## 10. ARGYMHELLION

10.1 Argymhellir bod aelodau'r Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol ac yn cadarnhau cyhoeddi'r wybodaeth hon fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â, Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n berthnasol.

## 11. RHESYMAU DROS ARGYMHELLION

11.1 Wrth gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol at ei gilydd yn yr adroddiadau hyn o feysydd gwasanaeth y Cyngor ac o weithio mewn partneriaeth, ac wedyn eu cyhoeddi, mae'r Cyngor yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth bresennol yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg.

## 12. PŴER STATUDOL

12.1 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Awdur: Anwen Rees, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a’r Gymraeg)
Est 4404 reesma@caerffili.gov.uk

Ymgyngoreion: Dave Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol)
Rob Hartshorn (Pennaeth Diogelu’r Cyhoedd)
Cyng. Barbara Jones (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid, Perfformiad a Llywodraethu)
Kathryn Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol)
Gail Williams (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Dros Dro / Swyddog Monitro)
Tim Jilg (Swyddog Hyfforddiant a Hyrwyddo Cydraddoldeb)
Sue Christopher (Adnoddau Dynol)
Ian Joynes (Adnoddau Dynol)
Ros Roberts (Rheolwraig Perfformiad)

Papurau Cefndir:
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020
Amcanion a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb a’r Gymraeg 2016-2020
Gwahanol Ddogfennau Canllawiau
*(Mae’r rhain ar gael yn electronig er gwybodaeth ar y Porth Mewnrwyd ac ar dudalennau perthnasol yn* ***www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb***)

Atodiad 1 - Adroddiad Blynyddol Safonau’r Iaith Gymraeg 2016-2017

# Adroddiad Blynyddol

# Safonau'r

# Iaith Gymraeg

# 2016 - 2017

**Paratowyd yn unol â gofynion**

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**30ain Mehefin 2017**

A greener place
Man gwyrddach

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# Cynnwys


| | Adran | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Cyflwyniad** | **1** |
| 1. | **Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd** | **3** |
| 2. | **Sgiliau Iaith Staff** | **6** |
| 3. | **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg** | **12** |
| 4. | **Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag** | **14** |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad monitro blynyddol hwn ar gyfer 2016-2017 yn cynnwys y pedwar maes sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ac mae'n dangos ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd ac i aelodau'r staff.

| **Manylion Gofynion i Adrodd** | **Rhif y Safon Berthnasol** *(ac is-gymal)* |
|---|---|
| **Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd**<br><br>Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a dderbynioch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfiad â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw. | 147, 148, 149, 156, 158 *(2)*, 162, 164 *(2)*, 168 *(a)*, 170 *(2) (d)* |
| **Sgiliau Iaith Staff**<br><br>Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gedwir yn unol â safon 151); | 170 *(2) (a)*<br>151 |
| **Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg**<br><br>Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddiant a gynigiwyd gennych yn Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152);<br><br>Os cafodd fersiwn Gymraeg o gwrs ei chynnig gennych yn ystod y flwyddyn, canran cyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 152). | 170 *(2) (b)*<br>170 *(2) (c)*<br>152 |
| **Recriwtio i Swyddi Gwag**<br><br>Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:<br><br>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol<br>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd<br>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol<br>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol<br><br>(ar sail y cofnodion a gadwyd gennych yn unol â safon 154); | 170 *(2) (ch)*<br>154 |

Daeth 5[ed] Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor i ben ar 31[ain] Mawrth 2016 ac mae wedi'i ddisodli gan ymrwymiad yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 diweddaraf y Cyngor. Mae pedwar o'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys yn benodol materion y Gymraeg, sef:

| | |
|---|---|
| Amcanion Cydraddoldeb Strategol 4 - | Gwella Mynediad Cyfathrebu |
| Amcanion Cydraddoldeb Strategol 6 - | Cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg |
| Amcanion Cydraddoldeb Strategol 10 - | Amrywiaeth yn y Gweithle |
| Amcanion Cydraddoldeb Strategol 11 - | Cydymffurfiaeth Gorfforaethol |

Mae Cabinet a Thîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor wedi bod yn cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau a dadleuon ynghylch Safonau'r Iaith Gymraeg ers mis Ionawr 2014, ac wedi derbyn nifer o adroddiadau a chyflwyniadau er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hysbysu'n llawn ynghylch cynnydd cyn y dyddiad Hysbysiad Cydymffurfio terfynol, sef 23[ain] Ionawr 2017.


Caiff yr adroddiad blynyddol hwn ei gyhoeddi ar-lein erbyn 30[ain] Mehefin 2017.

Mae hefyd ar gael i'w lawrlwytho mewn fformat pdf ar wefan y Cyngor ar y dudalen benodol ar yr iaith Gymraeg: **www.caerffili.gov.uk/cydraddoldeb**.

**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg, ac mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.**
**This report is available in English, and in other languages or formats on request.**

# 1. Cwynion gan Aelodau'r Cyhoedd

Mae **Amcan Cydraddoldeb Strategol 11 - Cydymffurfiaeth Gorfforaethol** y Cyngor yn ymrwymo'r Cyngor i fonitro cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg, a chyhoeddwyd canllawiau ar gyfer staff ar Borthol y staff ac ar y wefan allanol, sy'n rhoi manylion ynghylch sut y dylai staff ymdrin â'r materion hyn.




Yn ystod 2016-2017, cafwyd **17** achos eu cofnodi gyda **12** o'r rhain yn cael eu nodi fel cais am wasanaeth. Fodd bynnag roedd **5** wedi cael eu cofnodi fel cwynion o ran y Gymraeg. Mae'r wybodaeth ar y dudalen nesaf yn grynodeb er mwyn cynnal anhysbysrwydd y sawl sy'n gwneud y cwynion.

Mae data cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg (pan fo'n berthnasol) yn llunio rhan o'r adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r broses Cwynion Corfforaethol, ac mae'r Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg) yn rhan o'r Grŵp Dysgu o Gwynion sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cwynion penodol a thrawsbynciol.

## Diffiniadau Cyffredinol

Mae cwynion corfforaethol yn gwynion o ganlyniad i fethiant o ran proses neu fethiant i weithredu polisi'r Cyngor yn gywir. Mae'r rhain yn gwynion a allai, yn y pen draw, gael eu hanfon at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus neu at Gomisiynydd y Gymraeg, er enghraifft.

Caiff materion cod ymddygiad yn ymwneud ag ymddygiad neu agwedd staff eu trin drwy gyfrwng prosesau adnoddau dynol mewnol. Fodd bynnag, mae cwynion ynghylch Cydraddoldeb a'r Gymraeg yn rhywfaint o hybrid, oherwydd gall methiant proses fod o ganlyniad i agweddau neu farn aelod o staff tuag at grŵp penodol, er enghraifft.

## Cwynion yn ôl Cyfadran

| CYFADRAN | IAITH GYMRAEG |
|---|---|
| Prif Weithredwr | 0 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 1 |
| Cymunedau | 4* |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 1* |
| **CYFANSYMIAU** | **5** |

* Roedd un o'r cwynion yn torri ar draws dau Gyfadran

## Themâu ac Amserlenni'r Cwynion

Mae pob un o'r **5** cŵyn Iaith Gymraeg yn cyfeirio at fethiannau o ran y Safonau Iaith Gymraeg o fethu â darparu gwybodaeth neu arwyddion yn ddwyieithog i drin yr Iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. O'r **5** cwyn a derbyniwyd, cafodd **4** eu delio â hwy o fewn 10 diwrnod a chymerodd **1** 17 diwrnod i ddelio ag ef.

Y targed corfforaethol ar gyfer ymateb yn llawn i gŵyn yw 20 diwrnod gwaith, felly mae'r perfformiad cyffredinol a ddangosir yma yn dda iawn. Deliwyd â phob un o'r cwynion ynghylch y Gymraeg o fewn yr amserlen darged gorfforaethol.

## Ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf ers gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg, cawsom **5** Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r manylion wedi'u rhestru isod;

### CSG46

| MANYLION YR YMCHWILIAD | CANLYNIAD |
|---|---|
| Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;<br><br>• bod sillafiad anghywir y gair 'rhenti' wedi cael ei ddefnyddio yn lle 'rhentu' ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r ddau sillafiad yn gywir ond mae ganddynt wahanol ystyron<br><br>• bod cyfieithiad anghywir o hashnod wedi cael ei ddefnyddio ar ein tudalen Facebook<br><br>• bod cyfieithiad Cymraeg o arwydd a godwyd yn un o'n canolfannau hamdden yn anghywir | • **Safon 58** - methwyd gan fod y Cyngor wedi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Dim camau pellach o ganlyniad i wall teipograffyddol dynol.<br><br>• **Safon 63** – Dim methiant o ran y Safonau - roedd y cyfieithiad yn gywir yn y ddau achos |

## CSG64

| MANYLION YR YMCHWILIAD | CANLYNIAD |
|---|---|
| Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn honni;<br><br>• ein bod wedi methu'r Safonau trwy godi arwyddion enwau strydoedd Saesneg yn unig | • Penderfynwyd na allai'r ymchwiliad barhau gan nad yw'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio pan fo darn arall o ddeddfwriaeth (Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925) ar waith sy'n nodi nad oes rheidrwydd i osod arwyddion enwau strydoedd yn Gymraeg a Saesneg |

## CSG83

| MANYLION YR YMCHWILIAD | CANLYNIAD |
|---|---|
| Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg wybodaeth am fethiant posibl i gydymffurfio â'r Safonau;<br><br>• mewn perthynas â darparu gwersi nofio yn y Gymraeg | • Parhaodd yr ymchwiliad hwn o dan gyfeirnod ymchwiliad newydd gan fod **CSG83** wedi cael ei anfon at y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru |

## CSG122

| MANYLION YR YMCHWILIAD | CANLYNIAD |
|---|---|
| Aeth Comisiynydd y Gymraeg ar drywydd **CSG83** ymhellach o dan **CSG122** oedd yn ymwneud â;<br><br>• darpariaeth gwersi nofio yn y Gymraeg gan Gyngor Caerffili | • Penderfynwyd bod Cyngor Caerffili wedi methu 2 o'r 3 Safon berthnasol<br><br>• **Safon 81** – methu ar y sail bod gwersi nofio a ddarperir yn Gymraeg yn cael eu hysbysebu yn Saesneg yn unig<br><br>• **Safon 84** – methu ar y sail nad yw'r Cyngor yn darparu gwersi nofio yn y Gymraeg ar bob lefel, ond maent ar gael yn Saesneg<br><br>• **Safon 86** – nid oedd methiant gan nad oedd cyrsiau addysg mewn perthynas â gwersi nofio wedi'u datblygu ers dyddiad gosod y Safonau |

## CSG176

| MANYLION YR YMCHWILIAD | CANLYNIAD |
|---|---|
| Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg gŵyn yn honni methiant i gydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg;<br><br>• Mewn perthynas â'r safle we www.caerphillyasks.org.uk | • Mae'r ymchwiliad o hyd ar fynd |

## 2. Sgiliau Iaith Staff

Mae'r gallu i gofnodi materion yn ymwneud â'r Gymraeg yn nhermau data a dadansoddi staff yn rhan annatod o'r system gyflogres o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dangosir ffigyrau diwedd y flwyddyn ariannol hyd at 31ain Mawrth 2017 isod ac ar y dudalen nesaf.

O gymharu â'r llynedd, mae nifer y siaradwyr Cymraeg a gofnodwyd wedi gostwng, er bod canran y siaradwyr Cymraeg dim ond ychydig yn is – mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd y ffaith bod niferoedd cyffredinol staff y Cyngor wedi gostwng ers yr un cyfnod y llynedd.

### PROFFIL IEITHYDDOL Y GWEITHLU: GALLU YN Y GYMRAEG YN ÔL MAES GWASANAETH A RHUGLDER AR 31AIN MAWRTH 2017

### i) FFIGYRAU STAFF CYFFREDINOL

| | Cyfanswm y staff | Siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|
| *Gwasanaethau Corfforaethol* | | | |
| Cyllid Corfforaethol | 132 | 12 | 9.09 |
| Adnoddau Dynol | 107 | 6 | 5.61 |
| Gwybodaeth ac Ymgysylltu â Dinasyddion | 101 | 7 | 6.93 |
| Y Gyfraith a Llywodraethu | 59 | 7 | 11.86 |
| Gwasanaethau Eiddo | 60 | 5 | 8.33 |
| Gwasanaethau Caffael | 67 | 9 | 13.43 |
| *Cyfanswm* | **531** | **46** | **8.66** |
| | | | |
| *Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol* | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,115 | 42 | 3.77 |
| Cymorth Busnes | 29 | 3 | 10.34 |
| Gwasanaethau Plant | 297 | 18 | 6.06 |
| Diogelu'r Cyhoedd | 728 | 25 | 3.43 |
| *Cyfanswm* | **2,176** | **87** | **4.00** |

| | Cyfanswm y staff | Siaradwyr Cymraeg | % |
|---|---|---|---|
| *Cymunedau* | | | |
| Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden | 1,154 | 11 | 0.95 |
| Peirianneg a Chludiant | 247 | 8 | 3.24 |
| Cynllunio ac Adfywio | 395 | 36 | 9.11 |
| Cartrefi Caerffili | 523 | 42 | 8.03 |
| *Cyfanswm* | **2,284** | **95** | **4.16** |
| | | | |
| *Cyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes* | | | |
| Dysgu, Addysg a Chynhwysiant | 424 | 90 | 21.23 |
| Dysgu Gydol Oes a Chynllunio a Strategaeth | 440 | 46 | 10.45 |
| Ysgolion | 3,544 | 91 | 2.57 |
| *Cyfanswm* | **4,365** | **223** | **5.11** |
| | | | |
| *CYFANSYMIAU'R CYNGOR* | **8,767** | **436** | **4.97** |

## NODIADAU

- Yn unol ag adroddiadau blaenorol, mae'r ffigurau yn **B i)** uchod yn gyfanswm nifer y bobl fesul cyfadran sydd wedi llenwi'r ffurflen Sgiliau Ieithyddol gan nodi sgiliau Iaith Gymraeg.

- Mae'r ffigurau a ddangosir yn **B ii)** i **B v)** sy'n dilyn, yn cyfeirio at lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg fesul maes gwasanaeth ac ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â'r cyfansymiau a ddangosir yn **B i)** oherwydd er enghraifft yn yr isadran Cyllid Corfforaethol (yr ail adran isod yn **B ii)**, mae'r golofn "Gweddol Dda" yn cyfeirio at aelod staff sy'n gallu darllen, siarad, deall ac ysgrifennu'n weddol dda, ac nid tri aelod staff gwahanol.

- Ers cyflwyno Safonau'r Iaith Gymraeg a'r niferoedd isel parhaus a gofnodir ar y system, bydd Adran Adnoddau Dynol CBSC yn cynnal Arolwg Staff ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

  Bydd yr arolwg yn cael ei ddosbarthu i bob aelod o staff ym mis Mehefin 2017 a bydd y wybodaeth a gasglwyd yn cael ei ddefnyddio i ddiweddaru'r niferoedd a gofnodir ar hyn o bryd ar y System Gyflogres iTrent, ynghyd ag ymgyrch gorfforaethol i gynyddu'r ffigurau a gynhaliwyd ar iTrent er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

## ii) GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

| Cyllid Corfforaethol | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | - | 2 | 2 | 6 | 2 |
| Siarad / Defnyddio | - | 1 | 1 | 9 | 1 |
| Dealltwriaeth | - | - | 3 | 9 | - |
| Ysgrifennu | - | - | 2 | 8 | 2 |
| Cyfanswm y staff | 12 | | | | |

| Adnoddau Dynol | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | - | 3 | - | 2 | 1 |
| Siarad / Defnyddio | 1 | 2 | - | 3 | - |
| Dealltwriaeth | 1 | 2 | - | 3 | - |
| Ysgrifennu | - | 3 | - | - | 3 |
| Cyfanswm y staff | 6 | | | | |

| TG ac Ymgysylltu â Dinasyddion | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 2 | 1 | - | 4 | - |
| Siarad / Defnyddio | 2 | 1 | - | 4 | - |
| Dealltwriaeth | 3 | - | - | 4 | - |
| Ysgrifennu | 3 | - | - | 4 | - |
| Cyfanswm y staff | 7 | | | | |

| Y Gyfraith a Llywodraethu | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | - | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Siarad / Defnyddio | - | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Dealltwriaeth | - | 2 | 1 | 4 | - |
| Ysgrifennu | - | 2 | 1 | 3 | 1 |
| Cyfanswm y staff | 7 | | | | |

| Gwasanaethau Eiddo | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | - | - | 4 | - |
| Siarad / Defnyddio | 1 | - | 1 | 3 | - |
| Dealltwriaeth | 1 | - | - | 4 | - |
| Ysgrifennu | 1 | - | - | 4 | - |
| Cyfanswm y staff | 5 | | | | |

| Caffaeliad | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | 1 | 2 | 2 | 3 |
| Siarad / Defnyddio | 1 | 1 | 1 | 5 | 1 |
| Dealltwriaeth | 1 | 1 | 1 | 5 | 1 |
| Ysgrifennu | 1 | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Cyfanswm y staff | 9 | | | | |

## iii) CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

| Gwasanaethau Oedolion | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 10 | 11 | 5 | 13 | 3 |
| Siarad / Defnyddio | 10 | 6 | 10 | 15 | 1 |
| Dealltwriaeth | 12 | 9 | 4 | 15 | 2 |
| Ysgrifennu | 8 | 10 | 8 | 12 | 4 |
| **Cyfanswm y staff** | **42** | | | | |

| Cymorth Busnes | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | - | - | 2 | - |
| Siarad / Defnyddio | - | - | 1 | 2 | - |
| Dealltwriaeth | - | - | 1 | 2 | - |
| Ysgrifennu | - | 1 | - | 2 | - |
| **Cyfanswm y staff** | **3** | | | | |

| Gwasanaethau Plant | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | 2 | 3 | 8 | 4 |
| Siarad / Defnyddio | 1 | 1 | 4 | 9 | 3 |
| Dealltwriaeth | 1 | 1 | 4 | 12 | - |
| Ysgrifennu | 1 | 1 | 4 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm y staff** | **18** | | | | |

| Diogelu'r Cyhoedd | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 6 | 2 | 3 | 10 | 4 |
| Siarad / Defnyddio | 6 | 1 | 2 | 14 | 2 |
| Dealltwriaeth | 4 | 2 | 3 | 13 | 3 |
| Ysgrifennu | 5 | 2 | 2 | 12 | 4 |
| **Cyfanswm y staff** | **25** | | | | |

# iv) CYMUNEDAU

| Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | - | 5 | 4 | 1 |
| Siarad / Defnyddio | 1 | - | 4 | 4 | 2 |
| Dealltwriaeth | 1 | - | 4 | 5 | 1 |
| Ysgrifennu | 1 | - | 4 | 4 | 2 |
| Cyfanswm y staff | 11 | | | | |

| Peirianneg a Chludiant | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 2 | 2 | 2 | 2 | - |
| Siarad / Defnyddio | 2 | 3 | 1 | 2 | - |
| Dealltwriaeth | 2 | 3 | 1 | 2 | - |
| Ysgrifennu | 2 | 1 | 3 | 2 | - |
| Cyfanswm y staff | 8 | | | | |

| Cynllunio ac Adfywio | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 5 | 4 | 4 | 21 | 2 |
| Siarad / Defnyddio | 5 | 3 | 3 | 24 | 1 |
| Dealltwriaeth | 5 | 4 | 3 | 23 | 1 |
| Ysgrifennu | 5 | 1 | 3 | 24 | 3 |
| Cyfanswm y staff | 36 | | | | |

| Cartrefi Caerffili | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| Darllen | 1 | 1 | 2 | 28 | 10 |
| Siarad / Defnyddio | 1 | - | 2 | 36 | 3 |
| Dealltwriaeth | 1 | 1 | 3 | 34 | 3 |
| Ysgrifennu | 1 | 1 | 1 | 26 | 13 |
| Cyfanswm y staff | 42 | | | | |

# v) CYFADRAN ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

| Dysgu, Addysg a Chynhwysiant | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darllen** | 10 | 6 | 3 | 43 | 28 |
| **Siarad / Defnyddio** | 8 | 6 | 5 | 63 | 8 |
| **Dealltwriaeth** | 8 | 8 | 4 | 66 | 4 |
| **Ysgrifennu** | 7 | 7 | 4 | 40 | 32 |
| **Cyfanswm y staff** | **90** | | | | |

| Dysgu Gydol Oes a Chynllunio a Strategaeth | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darllen** | 4 | - | 8 | 26 | 8 |
| **Siarad / Defnyddio** | 4 | 1 | 7 | 32 | 2 |
| **Dealltwriaeth** | 3 | 1 | 6 | 31 | 5 |
| **Ysgrifennu** | 4 | - | 6 | 28 | 8 |
| **Cyfanswm y staff** | **46** | | | | |

| Ysgolion | Yn Rhugl | Gweddol Dda | Cymedrol | Ychydig | Heb Ddatgelu Lefel |
|---|---|---|---|---|---|
| **Darllen** | 56 | 7 | 6 | 19 | 3 |
| **Siarad / Defnyddio** | 56 | 5 | 6 | 24 | - |
| **Dealltwriaeth** | 22 | 6 | 7 | 20 | 36 |
| **Ysgrifennu** | 55 | 5 | 7 | 20 | 4 |
| **Cyfanswm y staff** | **91** | | | | |

## 3. Darpariaeth Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg

Erbyn blwyddyn academaidd bresennol 2016-2017, roedd **1556** o staff y Cyngor a staff sefydliadau partner wedi mynychu dosbarthiadau Cymraeg llafar, yn amrywio o gyrsiau blasu ar gyfer dechreuwyr llwyr, hyd at a gan gynnwys cyrsiau Lefel 'A'.

Yn ystod y flwyddyn dan sylw, trefnodd CBS Caerffili hyfforddiant llafar a hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ar gyfer staff y Cyngor a staff o sefydliadau partner, ac mae'r tabl canlynol yn dangos nifer y staff fu'n cymryd rhan:

| CYRSIAU A GYNIGIWYD | NIFER Y CYRSIAU | CAERFFILI | ALLANOL |
|---|---|---|---|
| 30 Wythnos | 31 | 45 | - |
| Cwrs Deuddydd Blasu'r Gymraeg | 7 | 14 | 31 |
| Cwrs 10 Wythnos Blasu'r Gymraeg | 1 | 4 | 17 |
| Tynnu'n Ôl | - | 3 | 1 |

### Ffigyrau Staff Caerffili – 2001-2017

| Blwyddyn Academaidd | Cyrsiau Blwyddyn | Cyrsiau Blasu | Cyfanswm nifer y Dysgwyr | *(Niferoedd a dynnodd yn ôl)* |
|---|---|---|---|---|
| 2001 – 2002 | 46 | 0 | 46 | *( 0 )* |
| 2002 – 2003 | 66 | 0 | 66 | *(11)* |
| 2003 – 2004 | 84 | 37 | 121 | *(17)* |
| 2004 – 2005 | 70 | 43 | 113 | *(15)* |
| 2005 – 2006 | 61 | 77 | 138 | *(10)* |
| 2006 – 2007 | 66 | 27 | 93 | *(12)* |
| 2007 – 2008 | 68 | 38 | 106 | *(7)* |
| 2008 – 2009 | 43 | 58 | 101 | *(9)* |
| 2009 – 2010 | 48 | 50 | 98 | *(13)* |
| 2010 – 2011 | 50 | 33 | 83 | *(1)* |
| 2011 – 2012 | 52 | 21 | 73 | *(2)* |
| 2012 – 2013 | 52 | 22 | 74 | *(3)* |
| 2013 – 2014 | 61 | 142 | 203 | *(16)* |
| 2014 – 2015 | 56 | 58 | 114 | *(13)* |
| 2015 – 2016 | 40 | 28 | 68 | *(14)* |
| 2016 - 2017 | 45 | 14 | 59 | *(3)* |
| **CYFANSYMIAU** | **908** | **648** | **1556** | ***(146)*** |

Mae'r cyrsiau Cymraeg deuddydd yn cael eu rhedeg mewn cydweithrediad â nifer o awdurdodau a sefydliadau eraill yn Ne Ddwyrain Cymru. Maent yn cyfarfod yn fisol fel **Grŵp Deddf** ac maent wedi bod yn cynnal y cyrsiau hyn yn flynyddol am nifer o flynyddoedd ac maent bob amser yn boblogaidd a llwyddiannus iawn.

Datblygwyd Cwrs Cymraeg 10 Wythnos newydd wedi'i deilwra ar gyfer staff sy'n gweithio yn y Ganolfan Gyswllt er mwyn sicrhau wrth iddynt ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd, eu bod hefyd yn bodloni gofynion y Safonau Iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd mae cyrsiau pellach yn cael eu teilwra ar gyfer staff sy'n gweithio yn Nerbynfa Tŷ Penallta, 6 prif lyfrgell, 4 prif ganolfan hamdden, Canolfan Ymwelwyr Caerffili, Llancaiach Fawr a'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nhŷ Penallta.

Ar sail gofynion y Safonau, ni chynigiwyd unrhyw gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ar 30 neu 31 Mawrth 2016, felly nid oes ffigyrau staff i'w cofnodi. Mae'r wybodaeth uchod yn cael ei gyhoeddi yma i ddarparu parhad ag adroddiadau blaenorol.

# 4. Recriwtio ar gyfer Swyddi Gwag

Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd ers 30ain Mawrth 2016 a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn:

(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol

**4**

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd

**11**

Mae cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg wedi bod ar gael am ddim i bob aelod o staff ers blwyddyn academaidd 2001-2002 (gweler **Adran 3** yn flaenorol)

(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol

**304**

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol

**302** gan gynnwys swyddi gwag mewn ysgolion

Mae'r Asesiadau Sgiliau Ieithyddol Cymraeg mewn perthynas â swyddi gwag/swyddi newydd yn unol â Safon 136, ac wedi cael eu cofnodi ers mis Hydref 2016. Mae'n rhaid i holl swyddi gwag neu newydd cael asesiad sgiliau ieithyddol Gymraeg ac mae'r holl swyddi yn cael eu hysbysebu fel **Cymraeg dymunol** fel gofyniad safonol, a bydd yr asesiad yn ystyried a oes angen newid hynny i fod yn swydd **Cymraeg hanfodol**.

Wedyn, bydd yr asesiad a thystiolaeth ategol yn llunio rhan o'r achos busnes sydd ei angen i gael caniatâd i lenwi swydd wag neu greu swyddi newydd.